Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd
ddydd Sadwrn 21 Chwefror 2015, ym Mrithdir, Dolgellau

2015.01 Addoli agoriadol a chroeso

Mae pennod 12:1–3 *Epistol at y Rhufeiniaid* o'r Testament Newydd wedi'i darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ein haddoli agoriadol.
Rydym wedi croesawu 52 o Gyfeillion i'r Cyfarfod hwn fel a restrir ar y daflen bresenoldeb.

Penodwyd y Cyfeillion canlynol gan eu Cyfarfodydd Ardal i fod yn bresennol:
Gogledd Cymru: Rhian Parry
Canolbarth Cymru: Ataliwyd y person penodedig. Mae Karen Goswell wedi cytuno i adrodd.
Gororau'r De: Peter Hussey
De Cymru: Neb wedi'i benodi. Mae Lynn Moseley wedi cytuno i adrodd.

Ein henaduriaid heddiw yw Dorothy Bell a Gethin Evans

2015.02 *Calon* a *The Friend*

Mae Rhian Parry wedi cytuno i ysgrifennu am y cyfarfod hwn i *Calon*.
Mae Lynn Moseley wedi cytuno i ysgrifennu i *The Friend*.

2015.03 Darlith Swarthmore a thu hwnt

Mae Ben Pink Dandelion, darlithydd Swarthmore 2014–15, wedi rhannu â'r Cyfarfod hwn ei syniadaeth ers ysgrifennu'r llyfr *Open for Transformation: Being Quaker,* gan siarad am ei siwrnai barhaus gyda'i themâu. Soniodd fod rhai Cyfeillion wedi cael elfennau o'r llyfr yn anghysurus, yn enwedig ei ddefnydd o'r term 'seciwlar' a'i esmwythyd yntau â Duw-iaith. Mae wedi pwysleisio pa mor bwysig yw hi i ni fod yn agored i drawsffurfiad fel allwedd i ddeall ystyr bod yn Grynwr. Wrth siarad yn eglur â'n gilydd, rydym yn creu Cyfarfodydd a Chymdeithas sy'n rhydd rhag camddealltwriaeth, lle'r ydym yn gofyn 'O ba le rydyn ni'n gweithredu?''

2015.04 Adroddiad am Gyngor Cynrychioladol Quaker Life

Mae adroddiad brwdfrydig Liz Butler am benwythnos Cyngor Cynrychioladol Quaker Life yn ein cyfeirio at adnodd ar-lein newydd a ragddangoswyd yno, *Being Friends Together* y mae'n annog Cyfeillion i'w ddefnyddio yn y man. Mae hi'n ein hatgoffa efallai yr ychwanegir at *Being Friends Together*. Yn y man, hwyrach y bydd Cyfeillion yng Nghymru am ystyried dimensiwn Cymraeg i'r adnodd hwn.

2015.05 Adroddiad am y Cyfarfod Dioddefiadau, Rhagfyr 2014

Bydd Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion yn cofrestru â'r Comisiwn Etholiadol o dan *Ddeddf Tryloywder Lobïo, Grwpiau Ymgyrchu nad ydynt yn Bleidiau a Gweinyddiaeth Undebau Llafur 2014.* Yn ei adroddiad am Gyfarfod Dioddefiadau Rhagfyr 2014, soniodd Dave Butler wrthym am ddirnadaeth a phryderon parhaus ynglŷn â hyn. Byddai deunydd yn cael ei baratoi i esbonio safbwynt y Cyfeillion mewn cysylltiad â'r Ddeddf Lobïo hon. Bu hefyd yn sôn am anogaeth y Cyfarfod Dioddefiadau i Gyfeillion godi pontydd i daro'n ôl yn erbyn Islamoffobia ac i gael hyd i ffyrdd o hybu cyfiawnder trethi.

2015.06 Diwrnod Rhanbarthol De Cymru'r Cyfarfod Dioddefiadau

Mynychodd Jenny Sen hwn, yr ail gynulliad o'i fath yng Nghymru, a gynhaliwyd yn Nhŷ Cwrdd Cyfeillion Caerdydd ym mis Tachwedd 2014. Ffynhonnell wybodaeth werthfawr oedd y diwrnod am waith y Cyfarfod Dioddefiadau a atgoffodd Gyfeillion am bwysigrwydd cyfathrebu gweithredol rhwng Cyfarfodydd Ardal a Chyrddau Lleol ynghylch pryderon parhaus. Roedd Lynn Moseley wedi mynychu'r un cyfarfod gan nodi bod y syniad wedi'i drafod yno o gael gweithwyr *Quaker Life* cyflogedig rhanbarthol (byddai Cymru'n un o'r rhanbarthau dan sylw) yn debyg i weinidogion teithiol.

2015.07 Cymru'n Cofio

Mae Bwrdd Cymru'n Cofio yn cynllunio ac yn cydlynu digwyddiadau i gofláu ymwneud y Cymry â'r Rhyfel Byd Cyntaf. Mae Alan Armstrong wedi adrodd i Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru am Gyfarfod y Bwrdd ym mis Rhagfyr 2014 yng Nghaerdydd, gan amlinellu i ni gynlluniau *Cymru dros Heddwch* (Canolfan Gymreig Materion Rhyngwladol) a choffadwriaethau am gyfraniad Cymru yng nglaniad Galipoli 1915–16.

2015.08 Cymru a materion heddwch

Mae adroddiad Jane Harries wedi rhoi'r diweddaraf i'r cyfarfod hwn mewn cysylltiad ag (a) grŵp sy'n gweithio dros Ddiwrnod Gwrthwynebwyr Cydwybodol yng Nghymru a deiseb sydd ar y gweill i'r Cynulliad a (b) am hynt y prosiect *Cymru dros Heddwch* (Canolfan Gymreig Materion Rhyngwladol a grwpiau eraill). Anogir Cyfeillion i lofnodi'r ddeiseb i gael Diwrnod Gwrthwynebwyr Cydwybodol i Gymru. Bydd mater Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru a chefnogaeth i fentrau sy'n ddibynnol ar arian y Loteri ar yr agenda ar gyfer ein cyfarfod ym mis Mehefin 2015 yn Llanbedr Pont Steffan.

2015.09 Adroddiad gan CYTÛN

O Grŵp Galluogi CYTÛN, mae Deborah Rowlands wedi amlinellu rhai o weithgareddau a gwaith ymgysylltu CYTÛN; yn arbennig, gwahoddir Cyfeillion i edrych ar ffyrdd o gydweithio â CYTÛN ac eraill i fod yn eiriol dros bolisïau'n unol â'n pryderon fel Cymdeithas. Cytunwn i sefydlu grŵp o bobl i gwrdd â Gethin Rhys, swyddog polisi CYTÛN. Bydd y grŵp yn cynnwys Swyddog Eirioli Cyfarfod Blynyddol Prydain (yn amodol ar gydsyniad) ac eraill a bennir drwy ymgynghori â chlercod â Grŵp Ffocws Cymru Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru.

2015.10 Llyfrau cyswllt y Cyfeillion yng Nghymru

Mae'r Cyfarfod hwn yn atgoffa Cyfarfodydd Ardal a Chyrddau Lleol yng Nghymru nad oes ganddo gyllideb i ddarparu llyfrau cyswllt am ddim ar gyfer cysylltu â Chrynwyr ar draws Cymru i Gyfeillion a fyddai efallai yn dymuno eu cael. Mae'n eu darparu'n ddi-dâl i swyddogion penodedig mewn Cyfarfodydd Ardal ac i eraill y mae eu gwasanaeth i Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru'n golygu bod angen iddynt eu cael. Y llynedd, dangosodd Cofnod 2014.11 y 'dylai'r penderfyniad hwn, os yn bosibl, ddod i rym yn syth. Dylai golygyddion ein rhestrau cyswllt roi gwybod i gyfarfodydd/cyrddau fod angen talu am lyfrau personol'. Rydym yn dal i ystyried darparu'r wybodaeth hon yn ddigidol yn ogystal ag ar bapur neu'n lle hynny. Byddwn yn cysylltu â Chyfarfodydd Ardal i gychwyn trafodaeth am ddefnyddio fformat PDF a fyddai'n llai costus.

2015.11 Materion Ymestyn Allan

i. Dod â phrosiect Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree i ben

Mae'r prosiect i greu'r llyfrau *Towards the Source* a *Tua'r Tarddiad* yn ogystal â DVD a ariannwyd gan grant oddi wrth *Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree* bellach yn cael ei ddirwyn i ben. Mae'r dasg wedi'i chwblhau ac mae'r adroddiad terfynol i'r elusen wedi'i gyflwyno. Mae wedi golygu sawl blwyddyn o waith caled i nifer o Gyfeillion ac mewn amryw o ffyrdd gyfraniad gan lawer iawn yn rhagor. Mae'r canlyniadau wedi cael eu cylchredeg i ysgolion a llyfrgelloedd, yn ymddangos ar YouTube ac yn dal i fod ar werth. Maent yn hardd ac yn ffynhonnell werthfawr ar gyfer ymestyn allan yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mawr yw ein dyled i bawb a wnaeth y prosiect hwn yn bosibl ac ar y cyd â'r grŵp trefnu rydym yn ymlawenhau bod gennym rywbeth sy'n ychwanegu at y gronfa ddealltwriaeth am beth mae'n ei olygu i fod yn Grynwr mewn gwahanol rannau o'r byd.

ii. Grŵp Adnoddau

Roedd y Grŵp Posteri a'r Grŵp Cyhoeddiadau gynt yn rhan o ddarpariaeth Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru ar gyfer ymestyn allan yng Nghymru. Mae'r grwpiau hyn bellach wedi dod i ben ac mae eu rolau wedi'u hymgorffori yng ngwaith y Pwyllgor Adnoddau, sef enw newydd y Grŵp Prosiectau.

iii. Presenoldeb y Crynwyr gyda CYTÛN yn Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd, 2015

Ar hyn o bryd, nid oes dau Gyfaill gennym i gymryd lle John a Bridget Senior fel ein cynrychiolwyr i weithio gyda CYTÛN yn Sioe Frenhinol Cymru. Rydym yn chwilio ar frys am enwebiadau. Bydd y Sioe yn Llanelwedd, ger Llanfair-yn-Muallt, 20-23 Gorffennaf 2015.

iv. Presenoldeb y Crynwyr yn yr Eisteddfod Genedlaethol, Meifod, 2015

Mynychodd Alan a Cynthia Rowland y cyfarfod cynllunio cychwynnol ym mis Chwefror. Mae Cynthia wedi adrodd am y cyfarfod hwnnw a bydd angen gwirfoddolwyr i helpu ym mhabell CYTÛN/Eglwysi Ynghyd. Mae hi'n ein hatgoffa am weithgareddau megis addoli boreol a sgyrsiau a cherddoriaeth reolaidd yno drwy

gydol yr wythnos, yn ogystal â darparu lluniaeth a Chornel Dawel. Dyddiau cynnar yw hi o ran y trefniadau a bydd y cyfarfod cynllunio nesaf ar 27 Ebrill. Bydd ein swyddog gweinyddol yn anfon ffurflenni i gyrddau lleol gan wahodd gwirfoddolwyr i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r wythnos.

v. Pwyllgor Darlith y Cyfeillion yn yr Eisteddfod

Mae'r grŵp a sefydlwyd o dan Gofnod 2014.39 wedi cwrdd. Diben y grŵp oedd ystyried y posibilrwydd o Gyfeillion yn noddi darlith yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Nid oes raid i hwn fod yn ddigwyddiad blynyddol ac nid oes raid i'r darlithoedd gael eu traddodi gan Grynwr. Byddai darlithoedd yn ymdrin â thestun sy'n cydweddu â ffydd a phryderon y Crynwyr neu'n ymwneud â hanes y Cyfeillion gyda'r cyd-destun Cymreig mewn cof. Mae Lynn Moseley yn sôn mai yn Eisteddfod y Fenni 2016 y cynhelir y ddarlith gyntaf o'r fath fel arbrawf. Y testun fydd y Crynwr o gyhoeddwr ac addysgwr John Edward Southall a oedd yn byw yng Ngwent. Mae Dr Gethin Evans wedi cytuno i roi'r ddarlith. Gwahoddir Cyfeillion i awgrymu testunau a darlithwyr Cymraeg eraill ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol. Dylid cyflwyno'r rhain i'r grŵp cynllunio naill ai'n uniongyrchol neu drwy'r Cyrddau Lleol. Rydym yn cytuno i sefydlu cronfa benodedig i'w defnyddio yn y dyfodol i dalu ffi a threuliau i ddarlithwyr gwadd fel bo angen. Gwahoddir Cyfeillion i gyfrannu i'r gronfa hon.

2015.12 Penwythnos preswyl Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru, Machynlleth

Bydd *"Cymryd y cam nesaf" …… wrth gyflawni ein hymrwymiad i fod yn Gymuned Gynaliadwy,* Cynulliad Preswyl Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen, 27 Chwefror tan 1 Mawrth. Mae 38 o Gyfeillion wedi cofrestru. Bydd pedwar hwylusydd ac mae dau blentyn wedi'u cofrestru hefyd. Mewn perthynas â'r testun bydd yr hwyluswyr hyn yn edrych gyda Chyfeillion ar yr ysbrydol, ffactorau economaidd, gweithredu ac ymgyrchu. Mae Martin Hughes wedi cytuno i adrodd wrthym am y penwythnos preswyl hwn. Rydym yn diolch i Frances Voelcker am ei gwaith wrth drefnu'r cynulliad hwn.

2015.13 Materion yr Ymddiriedolwyr a Chyllid

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi cwrdd heddiw a chymeradwyo'r cyfrifon ar gyfer 2014 a gyflwynwyd gan y Trysorydd a'u cytuno'n derfynol gan yr Archwiliwr. Bydd y rhain, ynghyd â'r Adroddiad Blynyddol, yn cael eu cyflwyno i Gyfarfod Blynyddol Prydain yn ôl y gofyn fel un o amodau eu grant blynyddol. Bydd copi o'r Adroddiad Blynyddol a'r cyfrifon yn cael ei osod ar wefan Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru i Gyfeillion eu darllen. Dylai unrhyw un nad yw'n gallu mynd at y wefan sydd am dderbyn copïau papur o'r dogfennau gysylltu â'n swyddog gweinyddol. Gellir codi unrhyw faterion ynglŷn â'r cyfrifon a'r Adroddiad Blynyddol yn ein cyfarfod nesaf (Mehefin 2015).

Mae'r adroddiadau yn dangos dwy gronfa gyfyngedig weddilliol sy'n cynnwys symiau bach o arian. Mae'r Ymddiriedolwyr yn argymell y dylai'r gronfa Lenyddiaeth gyfyngedig sy'n cynnwys £3.31 gael ei dirwyn i ben gan drosglwyddo'r swm hwn i gyfrif prosiect llyfrau Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree sy'n dal i fod yn weithredol. Bydd y gronfa Fwrsariaeth gyfyngedig sy'n cynnwys £8.00 hefyd yn cael ei dirwyn i ben gan drosglwyddo'r swm i'r gronfa Fwrsariaeth benodedig sy'n cynnwys £391.00. Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwnnw.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi adolygu Contract Cyflogaeth ein swyddog gweinyddol ac wedi cytuno i newid

y cymal sy'n ymdrin ag oriau gwaith i alluogi talu'r swyddog ar ddyddiad diweddarach ar gyfer yr oriau sydd wedi'u gweithio yn ystod y flwyddyn sy'n ychwanegol at yr oriau dan gontract. Ar hyn o bryd, dim ond amser i ffwrdd, yn lle taliad ychwanegol, y mae'r cymal yn ei ganiatáu. Bydd y trefniad yn cael ei adolygu ar ôl dwy flynedd.

2015.14 Cyfarfodydd Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yn y Dyfodol

Eleni, bydd Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yn cwrdd yn:
(a) Llanbedr Pont Steffan 27 Mehefin 2015, gyda siaradwraig o Gyngor Materion Ewropeaidd y Crynwyr. Byddai'n croesawu cyfleoedd i siarad â grwpiau a Chyrddau Cyfeillion eraill yn agos i'r dyddiad hwnnw.
(b) Y Trallwng 24 Hydref, siaradwr i'w drefnu.

Yn 2016, bydd y cyfarfodydd fel a ganlyn:

27 Chwefror 2016 Machynlleth
25 Mehefin 2016 Y Pales
22 Hydref 2016 Llanidloes

2015.15 Enwebiadau a Phenodiadau

Penodiadau a wnaed rhwng Cyfarfodydd

- Cyd-glerc ar gyfer Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru 1/1/2015 - 31/12/2017 Christine Trevett
- Pwyllgor cynllunio *Eglwysi Ynghyd* Eisteddfod 2015:
  Alan Rowland, Cynthia Rowland
- Pwyllgor cyllid CYTÛN: Peter Davies hyd at 31.12.2017
- Bwrdd Ymddiriedolwyr CYTÛN: Deborah Rowlands hyd at 30.06.2018

Cais am Enwebiadau

- 2 Ymddiriedolwr ar gyfer Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru 1/1/2016 – 31/12/2018
- Cyd-glerc Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru 1/1/2016 – 31/12/2018
- Trysorydd Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru 1/1/2016 – 31/12/2018 (byddai'n fuddiol i'r penodai ac i'r Trysorydd presennol pe bai ef/hi ar gael o Gyfarfod mis Hydref Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru).
- Cyfaill i wasanaethu gyda'r grŵp Trefniadau o 01/01/2016 -31.12.2018
- Dau gyfaill i ddarparu presenoldeb gan y Crynwyr mewn gwaith eciwmenaidd yn Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd, yn flynyddol ym mis Gorffennaf, 2015–2017.
- Dau gyfaill o Dde Cymru i chwilio am enwebai i'r grŵp Enwebiadau, i wasanaethu'n syth hyd at 31/12/2017 – penodwyd Lynn Moseley a Deborah Rowlands i'r dasg honno yn y Cyfarfod yma.
- Dau Gyfaill o Ogledd Cymru i chwilio am enwebai i'r grŵp Enwebiadau i wasanaethu o 01/01/2016 - 31.12.2018. Penodwyd Julia Aspden a D. Bryn Jones i'r dasg honno yn y Cyfarfod yma.

Ros Morley cyd-glercod Christine Trevett